Home Office

# Ymateb y Llywodraeth i’r Ymgynghoriad “Atal y defnydd o ffermydd SIM ar gyfer twyll”.

## Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a'r ffordd ymlaen

**Tachwedd 2023**

**CP 978**

# Ymateb y Llywodraeth i’r Ymgynghoriad “Atal y defnydd o ffermydd SIM ar gyfer twyll”.

**Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a'r ffordd ymlaen**

Wedi'i gyflwyno i'r Senedd
gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref trwy
Orchymyn Ei Fawrhydi

Tachwedd 2023

CP 978

OGL

© Hawlfraint y Goron 2023

Mae’r cyhoeddiad hwn wedi’i drwyddedu o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn **SimFarmConsultation@homeoffice.gov.uk**

ISBN 978-1-5286-4563-8

E03015619 11/23

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

# Cynnwys

Rhagair Gweinidogol 2

Crynodeb gweithredol 3

Trosolwg o'r ymgynghoriad 4

Crynodeb o'r ymatebion ac ymateb y Llywodraeth 7

Diffiniad a defnydd o ffermydd SIM a thechnolegau eraill a ddefnyddir ar gyfer twyll yn y DU (C1-C13) 7

Cynnig i wahardd gweithgynhyrchu, mewnforio, gwerthu, llogi, meddiannu a/neu ddefnyddio ffermydd SIM a thechnolegau eraill yn y DU (C14-C26) 11

Y gallu i ychwanegu eitemau pellach at y rhestr o dechnolegau gwaharddedig (C27-C30) 14

Galwad am Dystiolaeth 15

Atodiad A: Holiadur 16


# Rhagair Gweinidogol

Fel y Gweinidog Diogelwch, rwyf wedi ymrwymo i atal twyllwyr rhag gwneud pob un ohonom yn ddioddefwyr. Mae’r cawod o negeseuon testun a galwadau ffôn sgam rydym wedi’u gweld gan dwyllwyr yn achosi trallod emosiynol a thrallod ariannol i filiynau. Dyna pam y gwnaethom nodi ein hymrwymiad i rwystro twyll drwy leihau nifer y cyfathrebiadau sgam sy'n cyrraedd y cyhoedd yn y Strategaeth Twyll, a gyhoeddwyd ym mis Mai eleni.

Ar yr un pryd, buom yn ymgynghori ar gynigion i wahardd ffermydd SIM i atal troseddwyr rhag cael gafael ar y dyfeisiau hyn a’u defnyddio i dwyllo’r cyhoedd ym Mhrydain. Mae ymateb y cyhoedd i’r ymgynghoriad ar y mater hwn yn glir: mae pobl am weld mwy o ddiogelwch rhag twyll ac i’r Llywodraeth gymryd camau pellach i fynd i’r afael â thwyllwyr.

Heddiw, rwy’n falch o allu cyhoeddi ymateb y Llywodraeth i’r ymgynghoriad, sy’n paratoi’r ffordd ar gyfer deddfwriaeth i leihau twyll telathrebu. Mae’r ymateb yn nodi ein cynlluniau i wahardd meddu ar a chyflenwi ffermydd SIM, tra’n sicrhau bod amddiffyniadau digonol i fusnesau cyfreithlon.

Bydd y drosedd newydd yn golygu na fydd troseddwyr bellach yn gallu cael ffermydd SIM a thechnolegau tebyg i gyflawni twyll. Bydd hyn yn rhoi arfau ychwanegol i’r heddlu i darfu ar y troseddwyr ffiaidd sy’n targedu’r cyhoedd yn y DU.



**Y Gwir Anrhydeddus Tom Tugendhat MBE VR AS**
Gweinidog Diogelwch

# Crynodeb gweithredol

Mae’r ddogfen hon yn nodi mesurau arfaethedig y Llywodraeth i atal y defnydd o ffermydd SIM ar gyfer twyll yn y DU. Ym mis Mai 2023, fe wnaethom ymgynghori ar waharddiad posibl ar ffermydd SIM, a ddiffinnir fel dyfeisiau sy'n gallu gwneud galwadau a negeseuon testun a dal mwy na 4 cerdyn SIM ar yr un pryd. Rydym yn ddiolchgar i’r rhai a gymerodd amser i ymateb i’r ymgynghoriad.

Bydd y Llywodraeth yn cyflwyno deddfwriaeth sy’n creu trosedd newydd o gyflenwi neu feddu ar fferm SIM yn amodol ar amddiffyniadau i ganiatáu defnydd cyfreithlon a lle mae diwydrwydd dyladwy digonol wedi’i gyflawni. Bydd cosb o ddirwy ddiderfyn am y drosedd.

Bydd y Llywodraeth hefyd yn cyflwyno deddfwriaeth i ganiatáu ymestyn y drosedd hon i ddyfeisiadau neu eitemau telathrebu penodol eraill, lle mae risg sylweddol y cânt eu defnyddio ar gyfer twyll. Bydd unrhyw estyniad i'r drosedd yn amodol ar ofyniad i ymgynghori ag unrhyw bartïon yr effeithir arnynt i sicrhau cymesuredd.

Rydym yn credu y bydd y drosedd newydd yn rhoi arfau ychwanegol i’r heddlu darfu ar droseddwyr a’i gwneud yn anos cyrchu ffermydd SIM a thechnolegau tebyg a’u cam-defnyddio ar gyfer twyll.

# Trosolwg o'r ymgynghoriad

## Yr achos dros weithredu

Fel y nodir yn Strategaeth Twyll y Llywodraeth[1], mae twyll bellach yn cyfrif am oddeutu 40% o’r holl droseddau a amcangyfrifir yng Nghymru a Lloegr. Gwaethygir hyn gan soffistigeiddrwydd technolegol cynyddol yr offer sydd ar gael i dwyllwyr, sy'n caniatáu iddynt dargedu dioddefwyr ar raddfa fawr.

Mae negeseuon Gwasanaeth Negeseuon Byr (SMS) yn ddull a ddefnyddir gan dwyllwyr i dargedu cyhoedd y DU. Negeseuon testun yw’r ffurf fwyaf cyffredin, gyda mwy na 6 o bob 10 o bobl yn dweud eu bod wedi derbyn negeseuon testun amheus mewn cyfnod o dri mis. Mae adroddiadau am alwadau amheus yn is ond yn dal yn arwyddocaol: adroddodd 21% o ymatebwyr alwadau byw amheus i’w ffonau symudol ac 19% i’w llinellau tir[2]. Mae ffermydd SIM ar gael ar farchnadoedd poblogaidd ar-lein, am brisiau isel, gyda gofyniad cyfyngedig neu ddim gofyniad i wirio hunaniaeth y prynwr. Mae hyn yn eu gwneud yn opsiwn hawdd ei gyrchu, cost isel i dwyllwyr sy'n eu defnyddio i dwyllo dioddefwyr i roi gwybodaeth sensitif megis manylion banc.

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i atal troseddwyr rhag manteisio ar ffermydd SIM er mwyn twyllo cyhoedd y DU.

## Y broses ymgynghori

Lansiwyd ymgynghoriad y Swyddfa Gartref “Atal y defnydd o ffermydd SIM ar gyfer twyll” ar 3 Mai 2023 a daeth i ben ar 14 Mehefin 2023. Roedd yn gofyn am farn ar y diffiniad a'r defnydd cyfreithlon posibl o ffermydd SIM yng ngoleuni gwaharddiad posibl. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn ceisio barn ar dechnolegau eraill a ddefnyddir gan dwyllwyr a gofynnodd a ddylai’r Ysgrifennydd Gwladol allu gwahardd offer tebyg arall yn y dyfodol. Mae’r ymgynghoriad ar gael i’w weld yn:
https://www.gov.uk/Government/consultations/preventing-the-use-of-sim-farmsfor-fraud.

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi dull y Llywodraeth o fynd i'r afael â'r mater o ddefnyddio ffermydd SIM i gyflawni twyll. Roedd yr ymatebwyr yn cytuno y byddai’r gwaharddiad yn codi’r rhwystr i fynediad i’r rhai sy’n cymryd rhan mewn gweithgareddau anghyfreithlon, gan ei gwneud yn anos iddynt gael a manteisio ar ffermydd SIM ar gyfer twyll. Fodd bynnag, codwyd pryderon ganddynt fod rhai defnyddiau cyfreithlon posibl ar gyfer ffermydd SIM wedi'u cynnwys gan ddiffiniad y Llywodraeth o fferm SIM. Nododd mwyafrif yr ymatebwyr nad oeddent yn gwrthwynebu i’r Ysgrifennydd Gwladol ymestyn y gwaharddiad i eitemau pellach yn y

[1] Strategaeth Twyll: atal sgamiau a diogelu'r cyhoedd - GOV.UK (www.gov.uk)

[2] Ofcom, Tachwedd 2022, Arolwg Sgamiau

dyfodol, yn amodol ar baramedrau clir iawn ar gyfer arfer pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol megis ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol.

## Methodoleg

Roedd ymgynghoriad y Llywodraeth yn cynnwys 30 o gwestiynau a drefnwyd o dan bedair thema:

A. Cwestiynau yn profi'r diffiniad arfaethedig o ffermydd SIM, eu defnydd troseddol a defnyddiau cyfreithlon posibl [C 1-7].

B. Cwestiynau yn archwilio a yw technolegau eraill yn cael eu defnyddio ar gyfer twyll yn y DU ac a ddylid eu dwyn o dan y gwaharddiad arfaethedig [C8-13]

C. Cwestiynau yn asesu'r amodau y gellid eu gosod er mwyn cyflawni trosedd wrth gyflenwi, meddu ar a/neu ddefnyddio ffermydd SIM. [C14 -22]

D. Cwestiynau yn asesu'r amodau y gellir eu rhoi ar waith i drosedd gael ei chyflawni wrth gyflenwi, meddu ar a/neu ddefnyddio technolegau eraill [C23-26]

E. Cwestiynau yn ceisio barn ynghylch a ddylai'r Ysgrifennydd Gwladol allu ymestyn y drosedd i eitemau eraill yn y dyfodol [C27-30]

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys pedwar cwestiwn arall o dan Alwad am Dystiolaeth yn ceisio gwybodaeth a data i ganiatáu amcangyfrifon mwy cywir o'r effeithiau ar fusnesau [C.31-34]. Roedd cwestiwn terfynol [C. 35] yn ceisio barn mewn perthynas ag effeithiau ar bobl ar sail nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Cawsom gyfanswm o**50** o ymatebion i'r ymgynghoriad: cyflwynwyd 13 o ymatebion ar-lein ac anfonwyd 37 arall drwy e-bost.

Mae**Tabl 1** isod yn rhoi dadansoddiad o'r ymatebion fesul sianel.

| **Sianel Ymateb** | **Nifer yr Ymatebion** |
|---|---|
| Ar-lein | 13 |
| Word/PDF (derbyniwyd drwy e-bost) | 37 |
| CYFANSWM | 50 |

At ddiben yr ymateb hwn, rydym wedi casglu'r ymatebwyr yn wyth categori, fel y dangosir yn **nhabl 2**.

| Categori | Nifer yr Ymatebion |
|---|---|
| Sector darlledu (gan gynnwys. cyrff masnach) | 15 |
| Gwneuthurwr / Cyflenwr | 11 |
| Aelod o'r cyhoedd | 7 |
| Y sector telathrebu (gan gynnwys. gweithredwyr, cyfanredwyr, cyrff masnach) | 7 |
| Gorfodi'r gyfraith | 4 |
| Y sector cyhoeddus (e.e. GIG) | 2 |
| Cyrff anllywodraethol | 2 |
| Arall | 2 |
| CYFANSWM | 50 |

Ni atebodd rhai ymatebwyr bob cwestiwn. Oherwydd hynny, mae nifer (a chanran) yr atebion i'r cwestiynau yn aml yn wahanol i gyfanswm yr ymatebion a dderbyniwyd. Gallai ffigurau hefyd gynnwys rhywfaint o gyfrif dwbl lle mynegwyd safbwyntiau lluosog.

Rydym yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb.

# Crynodeb o'r ymatebion ac ymateb y Llywodraeth

## Diffiniad a defnydd o ffermydd SIM a thechnolegau eraill a ddefnyddir ar gyfer twyll yn y DU (C1-C13)

### Ymatebion i'r ymgynghoriad

Roedd saith cwestiwn cyntaf yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar y diffiniad a'r defnydd o ffermydd SIM. Roedddd C8-13 yn ceisio barn ar dechnolegau eraill a ddefnyddir ar gyfer twyll yn y DU. Mae’r ymatebion i’r ymgynghoriad yn cefnogi nod y Llywodraeth i ddiogelu unigolion a busnesau rhag sgamiau. Fodd bynnag, roeddynt yn cwestiynu nifer y slotiau cerdyn SIM a osodir yn y diffiniad ac yn codi pryderon y gallai'r diffiniad gwmpasu defnyddiau cyfreithlon. Yn yr un modd, roeddent yn nodi nifer o dechnolegau eraill a ddefnyddir gan fusnesau at ddibenion cyfreithlon y gellid eu camddefnyddio gan droseddwyr.

*Diffiniad o ffermydd SIM*

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (34) yn anghytuno â diffiniad arfaethedig y Llywodraeth o ffermydd SIM, roedd saith yn cytuno’n llwyr a thri yn cytuno’n rhannol. Roedd ymatebwyr yn cwestiynu nifer y slotiau cerdyn SIM arfaethedig fel cynsail y diffiniad ac yn pryderu bod y diffiniad yn peri risg o droseddoli dyfeisiau defnyddwyr megis ffonau clyfar a all ddal hyd at wyth eSIM. Mae eSIMs yn broffiliau digidol y gellir eu lawrlwytho sy'n gweithredu fel cerdyn SIM ffisegol traddodiadol. Roedd un ymateb yn gofyn am ddiffiniad mwy “diogel at y dyfodol a chyfannol” o ffermydd SIM fel “unrhyw fodd o anfon swmp SMS heblaw trwy weithredwr rheoleiddiedig o sianeli swmp SMS”.

*Defnydd cyfreithlon o ffermydd SIM*

Pryder a gododd dro ar ôl tro ymhlith ymatebwyr oedd bod y diffiniad arfaethedig yn eang iawn ac y gallai gwmpasu defnyddiau cyfreithlon. O’r 29 o ymatebion a gawsom i gwestiwn 7, dywedodd 18 fod eu busnes yn ymwneud â ffermydd SIM.

Roedd ymatebion i’r ymgynghoriad yn nodi’r defnyddiau cyfreithlon dilynol o ffermydd SIM:

i. Defnyddir rhai dyfeisiau aml-SIM wrth ddarlledu a gwneud rhaglenni i hwyluso cynhyrchu a chyflwyno darllediadau byw a rhai wedi'u recordio ymlaen llaw. Yn aml, dyfeisiau data-yn-unig yw’r rhain na allant wneud galwadau neu anfon negeseuon testun, a gellir cyfeirio atynt weithiau fel ‘technoleg cellog wedi’i bondio’.

ii. Mae Rhwydweithiau Cyfathrebu Electronig Cyhoeddus (PECNs), fel y’u diffinnir yn Neddf Cyfathrebiadau 2003, yn wasanaethau y gall pobl ymrwymo iddynt er mwyn anfon negeseuon electronig a defnyddio ffermydd SIM i asesu a chynnal diogelwch rhwydwaith a chadernid rhwydwaith. Ymhlith y darparwyr PECNs perthnasol a

nodwyd yn ystod yr ymgynghoriad mae gweithredwyr llinell sefydlog, gweithredwyr rhwydweithiau symudol a darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd.

iii. Defnyddir ffermydd SIM gan ddarparwyr trafnidiaeth i gynnig WiFi ar drenau, tramiau, bysiau, coetsis neu fferïau wrth i'r dyfeisiau newid rhwng Gweithredwyr Rhwydwaith Symudol (MNOs) yn dibynnu ar ba rwydwaith sydd â'r dderbynfa orau lle mae'r ddyfais wedi'i lleoli ar y foment honno.

iv. Mae'r gwasanaethau brys yn defnyddio ffermydd SIM i alluogi cyfathrebiadau hollbwysig neu anfon rhybuddion a negeseuon brys i'r cyhoedd.

*Defnydd troseddol o ffermydd SIM*

Fe gawsom 15 o ymatebion i gwestiwn 3 (defnydd troseddol o ffermydd SIM), a nododd lawer o weithgareddau troseddol neu anghyfreithlon a hwylusir gan ffermydd SIM. Gellir defnyddio ffermydd SIM ar gyfer*“unrhyw beth y gellir defnyddio ffôn neu SIM unigol ar ei gyfer, dim ond ar raddfa ehangach”*, gan gynnwys cyfathrebiadau sbam, negeseuon testun a galwadau sgam, dwyn data a thwyll yn erbyn gweithredwyr telathrebu:

i. Cyfeiriodd mwyafrif yr ymatebwyr at y defnydd o ffermydd SIM i osgoi sianeli cyfathrebu cyfreithlon ac anfon galwadau a negeseuon testun ar brisiau sylweddol is na'r llwybrau priodol. Mae'r arfer hwn yn cam-ddefnyddio telerau gwasanaeth gweithredwyr telathrebu ac yn arwain at golled refeniw sylweddol i weithredwyr a chyflenwyr SMS cyfreithlon.

ii. Yr ail weithgaredd anghyfreithlon y soniwyd amdano fwyaf oedd defnyddio ffermydd SIM ar gyfer ymdrechion i dwyllo trwy negeseuon testun a negeseuon. Defnyddir ffermydd SIM i anfon negeseuon testun sgam ar raddfa fawr, ymgyrchoedd galw robo a galwadau byw i gynaeafu gwybodaeth bersonol i dwyllo dioddefwyr i drosglwyddo arian o'u cyfrifon. Fe wnaeth ymatebwyr gysylltu ffermydd SIM â negeseuon sgam megis negeseuon testun sgam ‘Helô Mam’, ‘danfoniad parsel a gollwyd’ a ‘trafodiad amheus’, sydd oll yn enghreifftiau o ‘SMS-rwydo’ (gwe-rwydo SMS). Defnyddir ffermydd SIM hefyd i anfon negeseuon testun a galwadau marchnata digymell (sbam) ar brisiau isel. Fel y nododd un ymatebydd MNO, mae ffermydd SIM ‘yn cynhyrchu llawer iawn o negeseuon sy’n mynd allan, felly hyd yn oed os mai dim ond cyfran fach sy’n syrthio am y twyll, mae’r nifer absoliwt yn dal yn eithaf arwyddocaol’.

Mae'n werth nodi y gall ffermydd SIM hefyd achosi ymyrraeth niweidiol i weithrediad rhwydweithiau symudol, gan achosi tagfeydd a gostyngiad yn ansawdd y gwasanaeth.

iii. Lle mae ffermydd SIM yn cael eu defnyddio ar gyfer cyfathrebiadau busnes gan fusnesau cyfreithlon yn ôl y sôn, er bod gwneud hyn yn torri’r telerau gwasanaeth, maent hefyd yn cyfrannu at risgiau preifatrwydd trwy gasglu a storio data sensitif, gyda’r potensial ar gyfer mynediad heb awdurdod a thoriadau cydymffurfedd. Gall gweithredwyr dyfeisiau gyrchu cynnwys SMS cyfreithlon sy'n mynd trwy'r offer, cynaeafu'r data sydd ynddo neu drin ei gynnwys i ffurfio ymosodiadau gwe-rwydo.

iv. Mae ffermydd SIM hefyd yn galluogi creu cyfrifon ffug a/neu awtomataidd ar lwyfannau ar-lein y mae troseddwyr yn eu defnyddio i ledaenu gwybodaeth anghywir a negeseuon niweidiol.

Yn ehangach, dywedodd ymatebwyr y gellir defnyddio ffermydd SIM i gomisiynu a chydlynu unrhyw fath o weithgaredd troseddol.

*Technolegau eraill a ddefnyddir ar gyfer twyll*

Pan ofynnwyd iddynt pa dechnoleg arall y gellid ei dwyn o dan y gwaharddiad hwn, cyfeiriodd ymatebwyr at gadwyno dyfeisiau, apiau 'Arian am SMS' a lletya SIM rhithwir. Fe wnaethon nhw awgrymu y gallai dyfeisiau lluosog megis mathau eraill o fodemau GSM, ffonau neu ffermydd SIM 4-slot gael eu weirio gyda'i gilydd mewn cyfres i greu fferm SIM aml-slot.

Disgrifiwyd apiau symudol sy'n caniatáu i ddefnyddwyr werthu eu negeseuon SMS rhad ac am ddim nas defnyddiwyd - apiau 'Arian am SMS' - fel technoleg allweddol sydd eisoes yn cael ei defnyddio. Gellir defnyddio'r apiau hyn i awtomeiddio a graddio gweithgareddau sgam SMS a sbam ac mae eu defnydd yn debygol o dyfu wrth i ddefnydd ffermydd SIM leihau.

Awgrymodd ymatebwyr y dylai gweinyddwyr SIM gael eu cynnwys yn y gwaharddiad hwn gan eu bod yn hynod soffistigedig ac yn debygol o gael eu defnyddio'n ehangach oherwydd eu swyddogaeth:

> "Mae lletya SIM rhithwir yn dechneg a ddefnyddir mewn ffermydd SIM lle mae cydrannau Hunaniaeth Symudol Tanysgrifiwr Rhyngwladol (IMSI) yn cael eu lanlwytho i weinyddion neu galedwedd. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer gweithredu SIMs lluosog ar yr un pryd ar un gweinydd neu glwstwr" [Gweithredwr Telathrebu]

Nododd rhai ymatebion fod gwahardd ffermydd SIM ffisegol yn unig yn debygol o arwain at ddadleoli i ffermydd eSIM. Fodd bynnag, roeddent yn cydnabod, pe byddai eSIMs yn cael eu cynnwys yn y gwaharddiad arfaethedig, y dylid addasu diffiniad y Llywodraeth o ffermydd SIM i sicrhau ei fod yn eithrio ffonau clyfar a all ddal mwy na phedwar eSIM.

Awgrymodd ymatebwyr y dylai'r gwaharddiad arfaethedig ystyried yr holl sianeli y mae gan actorion drwg fynediad iddynt megis apiau sgwrsio a chyfryngau cymdeithasol. Dywedon nhw y gallai'r technolegau dilynol gael eu defnyddio ar gyfer twyll:

i. ffurfiau ar dechnoleg ddigidol megis iSpoof a gwefannau eraill sy'n hysbysebu galwadau ffôn SMS neu lais ffug - nid yw'r rhain yn dibynnu ar gardiau SIM nac offer ffisegol arall.

ii. Gall twyllwyr gamddefnyddio gwasanaethau ap-i-berson (A2P), sef gwasanaethau negeseuon SMS swmp ar-lein, sy'n cynnig treialon am ddim a/neu nad ydynt yn cynnal gwiriadau cwsmeriaid digonol i anfon negeseuon SMS twyllodrus.

iii. cyfuno ffonau llosgwr gyda meddalwedd castio SMS (meddalwedd a ddefnyddir gan fusnesau i anfon negeseuon testun at gwsmeriaid lluosog ar unwaith), megis

cysylltu setiau llaw â chyfrifiadur a defnyddio meddalwedd castio SMS i anfon negeseuon testun sgam.

iv. Seiber-ymosodiadau yn erbyn y rhwydwaith signalu byd-eang rhwng gweithredwyr ffonau symudol, y cyfeirir ati'n aml fel System Signalu Saith neu SS7. Mae ymosodiadau SS7 yn caniatáu i droseddwyr gyfaddawdu a rhyng-gipio cyfathrebiadau llais ac SMS, megis bancio negeseuon SMS.

v. Camddefnyddio apiau Darparwr Llais dros y Rhyngrwyd (VoIP) megis Skype a Hashed, er enghraifft trwy gyfaddawdu a defnyddio manylion VoIP busnesau cyfreithlon.

Er nad oeddent yn cynnig gwaharddiad llwyr, nododd ymatebwyr hefyd y gallai'r

> "Defnydd o Apiau [Dros-Y-Brig neu negeseua dros ddata] megis WhatsApp, Viper, WeChat. Facebook Messenger, iMessage i anfon traffig gwe-rwydo dyfu heb ei wirio os nad yw'r Llywodraeth yn cymhwyso mesurau priodol i sicrhau bod gan y gwerthwyr reolaeth dros eu gwasanaethau" [Darparwr Cyfathrebu]

Nododd ymatebwyr, er y gallai troseddwyr gamddefnyddio'r rhan fwyaf o'r technolegau hyn, maent hefyd yn cael eu defnyddio gan fusnesau at ddibenion cyfreithlon. Er enghraifft, nodwyd bod platfformau megis Skype (sy'n cynnig anfon testunau cyfaint) yn gyfreithiol, ac mae A2P SMS yn chwarae rhan hanfodol wrth hwyluso cyfathrebu effeithiol rhwng busnes a'r boblogaeth yn gyffredinol.

## Ymateb y Llywodraeth:

Rydym yn croesawu'r cadarnhad bod ffermydd SIM yn cael eu defnyddio'n aml i gyflawni twyll ar raddfa enfawr. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod y gallai'r diffiniad arfaethedig gynnwys nifer o fusnesau cyfreithlon.

Ein prif amcan yw atal troseddwyr rhag cyrchu ffermydd SIM – nid ein bwriad yw amharu ar fusnes cyfreithlon na rhwystro datblygiad technolegol yn y DU. Am y rheswm hwnnw, byddwn yn sicrhau bod y diffiniad o ffermydd SIM yn ystyried y pryderon a godwyd.

Yn benodol, bydd ein diffiniad yn dal dyfeisiau sy'n cynnwys neu'n ymgorffori pum cerdyn SIM corfforol neu fwy at ddibenion gwneud galwadau a / neu anfon negeseuon testun SMS. Fodd bynnag, byddwn yn eithrio unrhyw ddyfeisiau data-yn-unig nad ydynt yn gallu gwneud galwadau neu anfon negeseuon testun. Byddwn yn sicrhau bod gwaharddiad yn cynnwys amddiffyniad ar gyfer defnyddiau cyfreithlon a fydd yn golygu na fydd busnesau cyfreithlon sy'n meddu ar neu'n cyflenwi ffermydd SIM yn cael eu heffeithio'n andwyol, megis y diwydiannau darlledu a thrafnidiaeth. Ni fydd ychwaith yn berthnasol i'r Goron.

Nododd yr ymatebion y gallai'r diffiniad hefyd gynnwys eSIMs ac apiau symudol. Fodd bynnag, ni chawsom ddigon o dystiolaeth yn yr ymgynghoriad i'w cynnwys mewn gwaharddiad arfaethedig, oherwydd eu cymhlethdod a chyflymder parhaus y datblygu. Gellid mynd i'r afael â hyn ymhellach gan y pwerau arfaethedig i ymestyn y gwaharddiad i fathau eraill o offer telathrebu ac eitemau a ddefnyddir i gyflawni twyll (isod).

# Cynnig i wahardd gweithgynhyrchu, mewnforio, gwerthu, llogi, meddiannu a/neu ddefnyddio ffermydd SIM a thechnolegau eraill yn y DU (C14-C26)

## Ymatebion i'r ymgynghoriad

O’r 45 o ymatebion, roedd 24.4% yn cytuno’n llwyr â’r gwaharddiad, roedd 24.4% yn cytuno’n rhannol â’r gwaharddiad, roedd 48.8% yn anghytuno â phob elfen o’r gwaharddiad ac roedd 2.2% yn parhau i fod yn niwtral. Er eu bod yn cefnogi nod y Llywodraeth i leihau twyll, roedd y rhai a oedd yn anghytuno naill ai’n teimlo nad y gwaharddiad oedd yr ateb gorau ac yn awgrymu dewisiadau eraill neu’n teimlo y byddai’n effeithio’n anghymesur ar fusnesau’r DU.

Ni wnaeth mwyafrif yr ymgyngoreion roi sylw ar agwedd atebolrwydd caeth y drosedd. O'r rhai a wnaeth roi sylw, roedd y mwyafrif (7 ymateb) o blaid tra nododd 5 nad oedd yn gymesur â'r drosedd. Fe wnaeth naw cyfranogwr sylwadau ar y gosb arfaethedig o ddirwy anghyfyngedig, gyda phedwar yn awgrymu y byddai dedfryd o garchar yn fwy priodol ac un yn cynnig atafaelu asedau yn ogystal â dedfryd carchar. Nododd un ymatebwr yr angen am esemptiadau i unrhyw ddedfryd arfaethedig, er mwyn amddiffyn y rhai sy'n defnyddio'r dyfeisiau am resymau dilys.

Ni wnaeth yr ymatebion i C23-C26 yr ymgynghoriad sylw ar effaith bosibl gwaharddiad ar dechnolegau eraill a ddefnyddir ar gyfer twyll yn y DU, y tu hwnt i ble byddai hyn yn effeithio ar y diwydiant darlledu a diwydiannau eraill. Mae’r wybodaeth a’r data a ddarperir yn yr adran hon wedi’u hymgorffori yn y galwad am dystiolaeth a’r asesiad effaith.

*Effaith ar fusnesau*

Cododd 27 o ymatebion i’r ymgynghoriad bryderon ynghylch effaith y cynigion ar sectorau darlledu a sectorau eraill sy’n defnyddio ffermydd SIM a dyfeisiau aml-SIM eraill ar gyfer eu gweithrediadau, fel y nodwyd yn gynharach.

Yn benodol, roedd pryderon helaeth y byddai’r gwaharddiad yn effeithio’n negyddol ar allu darlledwyr, gwneuthurwyr rhaglenni a chynhyrchwyr cynnwys byw i roi sylw i raglenni newyddion a darparu ffrydiau byw o ddigwyddiadau amrywiol i gynulleidfaoedd eang (19 ymateb). Nododd dau ymatebwr hefyd y byddai’r gwaharddiad yn cyfyngu ar allu gweithredwyr telathrebu a darparwyr gwasanaethau trydydd parti i gefnogi profion gwasanaeth ar rwydweithiau telathrebu’r DU.

Roedd ymatebwyr yn cydnabod y byddai’r cynigion yn effeithio ar ddefnyddiau sydd eisoes yn torri telerau ac amodau rhwydwaith symudol, megis defnyddio ffermydd SIM ar gyfer cyfathrebiadau Busnes-i-Gwsmer (4 ymateb). Fodd bynnag, roedd eraill yn hyderus na fyddai defnydd cyfreithlon o ddyfeisiadau sy'n cynnwys SIMs lluosog, megis sicrhau parhad cysylltiad mewn ardaloedd lle nad oes signal digonol, yn cael ei effeithio a bod dewisiadau amgen addas ar gael. Lle nad oes dewis arall uniongyrchol ar gael, roedd ymatebwyr yn teimlo y dylai effaith gadarnhaol y gwaharddiad fod yn drech na’r effaith negyddol (5 ymateb).

*Effaith ar dwyll*

Rhannwyd ymatebion ynghylch effaith y gwaharddiad ar ddefnyddiau troseddol yn gyfartal rhwng y rhai a oedd yn disgwyl effaith gadarnhaol (8 ymateb) a'r rhai a gwestiynodd ei effeithlonrwydd (8 ymateb). Dywedodd ymatebwyr y byddai'r gwaharddiad yn cyfrannu at ecosystem ddigidol fwy diogel a dibynadwy ac yn helpu i liniaru twyll. Byddai'n codi rhwystr mynediad i droseddwyr, a ddylai yn ei dro arwain at lai o negeseuon testun sgam hyd yn oed os na fyddai'n eu hatal yn llwyr. Roeddent hefyd yn teimlo y byddai gorfodi'r gwaharddiad yn gweithio i atal troseddwyr rhag ystyried ffermydd SIM fel modd ar gyfer twyll. Fodd bynnag, teimlai eraill nad oedd y gwaharddiad yn mynd yn ddigon pell ac na fyddai'n atal twyllwyr yn llwyr rhag cam-ddefnyddio rhwydweithiau telathrebu i gyflawni twyll.

Gofynnodd yr ymgynghoriad am farn ar ffyrdd eraill o atal defnydd troseddol o ffermydd SIM a diogelu'r cyhoedd rhag sgamiau testun torfol. Gofynnodd chwe ymateb am fwy o gyfrifoldeb ar MNOs i fonitro eu rhwydweithiau am arwyddion o weithgarwch twyllodrus. Er enghraifft, dylent sgrinio a rhwystro negeseuon sy'n cynnwys sbam neu URLs amheus; a defnyddio technoleg fodern, gan gynnwys deallusrwydd artiffisial, i ganfod ac atal gweithgarwch o'r fath, gan sicrhau uniondeb gwasanaethau rhwydwaith heb effeithio ar ddefnyddwyr cyfreithlon. Gallai mesurau diogelwch gwell, gwell rheolaeth ar y rhwydwaith, a llai o anhysbysrwydd wneud gweithrediadau twyllodrus yn fwy heriol i'w cynnal. Fe wnaeth chwe ymateb awgrymu trefn drwyddedu ar gyfer achosion defnydd cyfreithlon.

Galwodd pedwar ymateb hefyd am newid ym mholisi cardiau SIM, gyda rhyw fath o fesurau cofrestru neu ddilysu cymesur i'w hystyried i ganiatáu rhywfaint o hyblygrwydd i ddefnyddwyr dilys, tra'n ei gwneud yn anodd i droseddwyr brynu nifer fawr o gardiau SIM. Argymhellwyd hefyd cyn-gofrestru cardiau SIM ar y pwynt prynu, gwiriadau diwydrwydd dyladwy gan weithredwyr y DU ar gadwyn gyflenwi eu cardiau SIM a chael gwared ar becynnau 'SMS anghyfyngedig' i wneud swmpwerthiannau'n fwy diogel a gwneud camddefnyddio cardiau SIM yn galetach. Fe wnaeth un ymateb alw am gofrestru rhifau ffôn busnes yn swyddogol i ddefnyddwyr penodol a lleoliadau ffisegol i fynd i'r afael â ffugio. Edefyn cyffredin mewn ymatebion oedd yr angen i ganolbwyntio ar atal, megis rhannu gwybodaeth i nodi actorion drwg, ac ymdrechion cydlynol i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd am dwyll ynghylch thelathrebu a thwyll sy'n gysylltiedig â thelathrebu.

Yn olaf, fe wnaeth ymatebwyr gynnig dosbarthu ffermydd SIM fel eitemau i'w defnyddio mewn twyll o dan adrannau 6 a 7 o'r Ddeddf Twyll a'i gwneud yn ofynnol i lwyfannau ar-lein ddileu hysbysebion sy'n hyrwyddo'r cyflenwad o dechnoleg megis ffermydd SIM.

## Ymateb y Llywodraeth

Rydym yn croesawu'r gefnogaeth eang o blaid cyfyngu ar fynediad i ffermydd SIM. Nododd rhai ymatebwyr fod dewisiadau amgen i waharddiad, megis trwyddedu. Fodd bynnag, ein barn ni yw y byddai tramgwydd troseddol yn fwy cymesur yn unol â natur droseddol y gweithgaredd y gall ffermydd SIM ei hwyluso, ac y byddai trwyddedu mewn gwirionedd yn fwy beichus i fusnesau nag esemptiad ar gyfer defnyddiau cyfreithlon.

Rydym yn nodi'r farn efallai na fydd y gwaharddiad yn gwbl effeithiol o ran atal troseddwyr rhag cyrchu ffermydd SIM a'u defnyddio. Bydd gwaharddiad ar werthu a meddu yn golygu

bod y Yn yr un modd, byddai gwaharddiad yn rhoi mwy o allu i orfodi'r gyfraith i ganfod ac amharu ar y defnydd o ffermydd SIM a rhoi cyfleoedd ymchwilio pellach a allai arwain at erlyniad am droseddau eraill a alluogwyd gan ddefnyddio ffermydd SIM. , er enghraifft twyll neu wyngalchu arian.

Rydym yn ddiolchgar iawn am awgrymiadau pellach i fynd i'r afael â thwyll sy'n seiliedig ar delathrebu, y byddwn yn parhau i'w hadolygu. Mae'r Llywodraeth yn parhau i weithio'n agos gyda'r diwydiant telathrebu i leihau twyll. Rhoddir sylw i negeseuon twyllodrus trwy apiau trwy'r Bil Diogelwch Ar-lein yn ogystal â gwaith parhaus y Llywodraeth gyda'r diwydiant technoleg. Yn olaf, mae'r Llywodraeth yn adolygu gweithrediad y sector negeseuon swmp ar wahân gyda'r bwriad o amharu ar dwyllwyr sy'n defnyddio negeseuon swmp i anfon llawer iawn o negeseuon testun sgam.

# Y gallu i ychwanegu eitemau pellach at y rhestr o dechnolegau gwaharddedig (C27-C30)

## Ymatebion i'r ymgynghoriad

Cawsom 22 o ymatebion ynghylch arfer pwerau’r Ysgrifennydd Gwladol i allu ymestyn y gwaharddiad arfaethedig i dechnolegau eraill yn y dyfodol. Nid oedd 27% o’r rhai a ymatebodd yn cytuno â’r cynigion tra bod 73% yn cytuno â’r pwerau arfaethedig, yn amodol ar baramedrau clir ar gyfer arfer pwerau’r Ysgrifennydd Gwladol.

Roedd y rhai a anghytunodd yn pryderu y byddai ychwanegu at y rhestr o eitemau gwaharddedig yn effeithio’n negyddol ar economi’r DU, tra bod eraill wedi codi pryderon ynghylch crynhoi pŵer i’r Llywodraeth, yn hytrach na’r Senedd, a phŵer penagored i ddiffinio technolegau eraill a allai gael eu dwyn o dan y gwaharddiad.

Pwysleisiodd mwyafrif yr ymatebwyr yr angen am ymgynghoriad eang a llawn gyda rhanddeiliaid cyn gwneud unrhyw newidiadau i'r rhestr o eitemau gwaharddedig.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae’r Llywodraeth o’r farn ei bod yn bwysig sicrhau bod y gwaharddiad yn hyblyg ac y gellir ei ddefnyddio i wahardd mathau eraill o dechnoleg yn gyflym lle nodir y rhain yn y dyfodol. Crybwyllir rhai technolegau o’r fath uchod, tra gallai eraill ddod i’r amlwg yn y dyfodol a bydd y Llywodraeth yn parhau i adolygu methodolegau twyll yn agos ar gyfer patrymau newidiol a thechnolegau newydd sy’n cael eu defnyddio, megis ffermydd eSIM ac eraill. Fodd bynnag, mae’r Llywodraeth yn cytuno ag ymatebwyr y dylai unrhyw bwerau i wahardd drwy is-ddeddfwriaeth gael paramedrau clir ar gyfer eu defnydd.

Byddwn yn sicrhau bod unrhyw bwerau yn y maes hwn yn cael eu drafftio’n ofalus ac yn cael eu cyfyngu i achosion lle mae tystiolaeth sylweddol o ddefnyddio technolegau penodol ar gyfer twyll, a hefyd yn cynnwys gofyniad am ymgynghoriad cyhoeddus.

# Galwad am Dystiolaeth

Cafodd galwad am dystiolaeth (Cwestiynau 31-34) ei gynnwys yn yr ymgynghoriad i gasglu gwybodaeth a data a fyddai wedi caniatáu amcangyfrifon mwy cywir o effeithiau posibl gwaharddiad. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth a thystiolaeth ond dim digon i ddarparu asesiad cynhwysfawr o effaith gwaharddiad posibl.

Ychydig o wybodaeth a data a ddarparwyd ar achosion defnydd cyfreithlon posibl ffermydd SIM. Mae'r wybodaeth a ddarparwyd wedi'i hystyried fel rhan o'r cynllun polisi i sicrhau bod yr effeithiau ar fusnesau cyfreithlon yn cael eu lleihau.

Fe wnaeth gweithredwyr rhwydweithiau symudol (MNOs) ddarparu tystiolaeth ar faint o negeseuon testun sgam dan amheuaeth a anfonwyd ar eu rhwydweithiau ac fe wnaethon nhw ddweud eu bod yn credu bod troseddwyr yn defnyddio ffermydd SIM i hwyluso’r gweithgaredd hwn. Mae ffermydd SIM yn arwain at brofiad negyddol i ddefnyddwyr oherwydd tagfeydd rhwydwaith.

Byddai disgwyl i waharddiad leihau lefel y twyll, a'r niwed economaidd-gymdeithasol cyfatebol. Fodd bynnag, oherwydd y swm cyfyngedig o dystiolaeth a dderbyniwyd, erys ansicrwydd ynghylch effaith y cynigion ar fusnesau a’r costau sy’n gysylltiedig â chyflwyno a gweithredu’r gwaharddiad. Felly, caiff amcangyfrifon cost a budd effaith y polisi eu hasesu’n ansoddol i raddau helaeth yn yr Asesiad Effaith a gyhoeddir ochr yn ochr ag unrhyw ddeddfwriaeth arfaethedig.

# Atodiad A: Holiadur

## A. Diffiniad a defnydd o ffermydd SIM

C1. Ydych chi'n cytuno â diffiniad y llywodraeth o fferm SIM, fel dyfais sy'n cynnwys mwy na phedwar cerdyn SIM?

Eglurwch eich ateb a rhowch dystiolaeth lle bo modd (Uchafswm 250 o eiriau)

C2. Pa dechnoleg arall y gellid ei dwyn o dan y gwaharddiad hwn a sut y dylid disgrifio hyn?

Eglurwch eich ateb a rhowch dystiolaeth lle bo modd (Uchafswm 250 o eiriau) C3.

Pa droseddau y defnyddir ffermydd SIM i'w hwyluso?

Eglurwch eich ateb a rhowch dystiolaeth lle bo modd (Uchafswm 250 o eiriau)

C4. A oes gennych unrhyw ddata neu enghreifftiau i ddangos graddfa eu defnydd anghyfreithlon?

Eglurwch eich ateb a rhowch dystiolaeth lle bo modd (Uchafswm 250 o eiriau)

C5. A ydych yn ymwybodol o ddefnyddiau cyfreithlon o ffermydd SIM nad ydynt yn cael eu crybwyll yn y ddogfen hon?

Eglurwch eich ateb a rhowch dystiolaeth lle bo modd (Uchafswm 250 o eiriau)

C6. A oes gennych unrhyw ddata neu enghreifftiau i ddangos graddfa eu defnydd cyfreithlon?

## B. Technolegau eraill a ddefnyddir ar gyfer twyll yn y DU.

C8. A ydych yn gwybod am unrhyw dechnolegau, gwasanaethau neu ddyfeisiau eraill, ar-lein neu all-lein, y gellir eu defnyddio i wneud pethau tebyg i ffermydd SIM? Pa mor hawdd fyddai hi i newid i'r rhain?

Eglurwch eich ateb a rhowch dystiolaeth lle bo modd (Uchafswm 250 o eiriau)

C9. A ydych yn ymwybodol o unrhyw ddefnydd cyfreithlon o'r eitemau a nodir yn

C8? a) Ydw

b) Nac ydw

Eglurwch eich ateb a rhowch dystiolaeth lle bo modd (Uchafswm 250 o eiriau) C10. [Ar gyfer busnesau] A yw eich busnes yn cynnwys unrhyw rai o'r eitemau a nodir yn C8?

a) Ydy
b) Nac ydw

Eglurwch eich ateb a rhowch dystiolaeth lle bo modd (Uchafswm 250 o eiriau)

C11. A ydych yn gwybod am unrhyw dechnolegau, gwasanaethau neu ddyfeisiau eraill, ar-lein a/neu all-lein, y gellir eu defnyddio i anfon negeseuon testun sgam a/neu wneud galwadau sgam? a) Ydw
b) Nac ydw

Eglurwch eich ateb a rhowch dystiolaeth lle bo modd (Uchafswm 250 o eiriau)

C12. A ydych yn ymwybodol o unrhyw ddefnydd cyfreithlon o'r eitemau a nodir

yn C11? a) Ydw

b) Nac ydw

Eglurwch eich ateb a rhowch dystiolaeth lle bo modd (Uchafswm 250 o eiriau) C13.

[Ar gyfer busnesau] A yw eich busnes yn ymwneud ag unrhyw rai o'r eitemau a nodir

yn C11? a) Ydw

b) Nac ydw

Eglurwch eich ateb a rhowch dystiolaeth lle bo modd (Uchafswm 250 o eiriau)

## C. Cynnig i wahardd gweithgynhyrchu, mewnforio, gwerthu, llogi, meddiannu a/neu ddefnyddio ffermydd SIM yn y DU:

C14. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig i wahardd gweithgynhyrchu, mewnforio, gwerthu, llogi, meddiannu a/neu ddefnyddio ffermydd SIM yn y DU?

a) Ydw - cytuno'n llwyr
b) Ydw – cytuno'n rhannol/nid pob agwedd ar y gwaharddiad
c) Nac ydw – anghytuno
d) Ddim yn gwybod

Eglurwch eich ateb a rhowch dystiolaeth lle bo modd (Uchafswm 250 o eiriau)

C15. A ddylai hyn fod yn drosedd atebolrwydd llym (h.y. mae'r troseddwr yn cael ei ddal yn atebol am weithgynhyrchu, mewnforio, gwerthu, llogi, meddiannu a/neu ddefnyddio ffermydd SIM p'un a yw wedi ymddwyn gyda'r bwriad i gyflawni trosedd neu drwy esgeulustod)?

Eglurwch eich ateb a rhowch dystiolaeth lle bo modd (Uchafswm 250 o eiriau)

C16. A ddylai'r gosb am y drosedd hon fod yn ddirwy ddiderfyn neu pa gosb arall fyddai'n gymesur?

C17. Sut byddai gwahardd ffermydd SIM yn effeithio ar eu defnydd cyfreithlon

(os o gwbl)? Eglurwch eich ateb a rhowch dystiolaeth lle bo modd (Uchafswm

250 o eiriau) C18. Sut byddai gwahardd ffermydd SIM yn effeithio ar eu defnydd

anghyfreithlon neu droseddol?

Eglurwch eich ateb a rhowch dystiolaeth lle bo modd (Uchafswm 250 o eiriau)

C19. A ydych yn ymwybodol o unrhyw grwpiau o fusnesau, sefydliadau a/neu unigolion yr effeithir yn arbennig arnynt gan y cynigion hyn?

a) Ydw
b) Nac ydw
c) Ddim yn gwybod

Eglurwch eich ateb a rhowch dystiolaeth lle bo modd (Uchafswm 250 o eiriau)

C20. A oes unrhyw fodd arall i atal troseddwyr rhag cam-drin ffermydd SIM a allai

hefyd gyrraedd y nod o ddiogelu'r cyhoedd rhag sgamiau testun torfol? a) Ydw

b) Nac ydw

Eglurwch eich ateb a rhowch dystiolaeth lle bo modd (Uchafswm 250 o eiriau)

C21. Beth fyddai effaith y cynnig hwn i wahardd gweithgynhyrchu, mewnforio, gwerthu, llogi, meddiannu a/neu ddefnyddio ffermydd SIM yn y DU ar eich busnes neu sefydliad pe byddai'n dod i rym?

Eglurwch eich ateb a rhowch dystiolaeth lle bo modd (Uchafswm 250 o eiriau)

C22. A ddylid pennu cyfnod pontio byr, a chyfyngedig iawn, i ganiatáu i fusnesau,

sefydliadau ac unigolion gael gwared ar ffermydd SIM? a) Ydw

b) Nac ydw

Eglurwch eich ateb a rhowch dystiolaeth lle bo modd (Uchafswm 250 o eiriau)

## D. Cynigion i wahardd gweithgynhyrchu, mewnforio, gwerthu, llogi, meddiannu a/neu ddefnyddio technolegau (eraill) a ddefnyddir ar gyfer twyll yn y DU.

C23. A ydych yn ymwybodol o unrhyw effaith y gallai ein cynigion i wahardd gweithgynhyrchu, mewnforio, gwerthu, llogi, meddiannu a/neu ddefnyddio technolegau (eraill) a ddefnyddir ar gyfer twyll yn y DU ei chael, nad ydym wedi'i chynnwys yn y ddogfen hon?

a) Ydw
b) Nac ydw

Eglurwch eich ateb a rhowch dystiolaeth lle bo modd (Uchafswm 250 o eiriau)

C24. A ydych yn ymwybodol o unrhyw grwpiau o fusnesau, sefydliadau a/neu unigolion yr effeithir yn arbennig arnynt gan y cynnig i wahardd technolegau eraill? a) Ydw

b) Nac ydw

Eglurwch eich ateb a rhowch dystiolaeth lle bo modd (Uchafswm 250 o eiriau)

C25. Beth fyddai effaith y cynnig i wahardd technolegau eraill a ddefnyddir ar gyfer twyll yn y DU ar eich busnes neu sefydliad pe byddai'n dod i rym?

Eglurwch eich ateb a rhowch dystiolaeth lle bo modd (Uchafswm 250 o eiriau)

C26. A oes gennych unrhyw sylwadau neu wybodaeth bellach i'w hychwanegu at y nodyn economaidd cyhoeddedig i lywio ein cynigion ymhellach?

a) Ydw
b) Nac ydw

Eglurwch eich ateb a rhowch dystiolaeth lle bo modd (Uchafswm 250 o eiriau)

## E. Y gallu i ychwanegu eitemau pellach at y rhestr o dechnolegau gwaharddedig.

C27. A ddylai'r Ysgrifennydd Gwladol allu ychwanegu eitemau at y rhestr o dechnolegau gwaharddedig yn y dyfodol?

a) Ydw
b) Nac ydw

Eglurwch eich ateb a rhowch dystiolaeth lle bo modd (Uchafswm 250 o eiriau)

C28. A yw amodau tystiolaeth o ddefnydd, ymgynghori â rhanddeiliaid a gweithdrefn gadarnhaol yn briodol ar gyfer ychwanegu eitemau at y rhestr o dechnolegau gwaharddedig? (Mae rhagor o wybodaeth am y weithdrefn gadarnhaol ar gael yn https://guidetoprocedure.parliament.uk/articles/ovuiEncc/what-happens-tostatutoryinstruments-under-the-affirmative-procedure)

Eglurwch eich ateb a rhowch dystiolaeth lle bo modd (Uchafswm 250 o eiriau)

C29. Rydym yn cynnig bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gallu ychwanegu eitemau at y rhestr o dechnolegau gwaharddedig yn y dyfodol. A ydych yn ymwybodol o unrhyw effaith y gallai’r cynnig hwn ei chael, nad ydym wedi’i chynnwys yn y ddogfen hon?

a) Ydw
b) Nac ydw

Eglurwch eich ateb a rhowch dystiolaeth lle bo modd (Uchafswm 250 o eiriau)

C30. A ydych yn ymwybodol o unrhyw grwpiau o unrhyw grwpiau o fusnesau,

sefydliadau a/neu unigolion y bydd y cynnig hwn yn effeithio’n arbennig arnynt? a)

Ydw

b) Nac ydw

Eglurwch eich ateb a rhowch dystiolaeth lle bo modd (Uchafswm 250 o eiriau)

## F. Galwad am Dystiolaeth

C31. A oes gennych unrhyw ddata neu dystiolaeth i ddangos maint y defnydd cyfreithlon o ffermydd SIM a thechnolegau eraill a ddefnyddir i gyfathrebu ar raddfa?

C32. A oes gennych unrhyw ddata neu dystiolaeth i ddangos maint y defnydd anghyfreithlon o ffermydd SIM a thechnolegau tebyg?

C33. Sut byddai gwahardd ffermydd SIM yn effeithio ar eu defnydd cyfreithlon ac anghyfreithlon?

C34. A ydych yn ymwybodol o unrhyw effaith y gallai’r cynigion ei chael nad ydym wedi’i chynnwys yn y nodyn effaith economaidd, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â’r ddogfen hon?

## Effeithiau Cydraddoldeb

C33. A oes gennych unrhyw sylwadau am y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon mewn perthynas ag effeithiau ar bobl ar sail unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig dilynol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010: oedran; anabledd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd; priodas neu bartneriaeth sifil? Sut y gellid lliniaru effeithiau o'r fath? (Uchafswm 500 o eiriau)

E03015619

978-1-5286-4563-8